COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD O BELL DRWY GYFRWNG TIMAU MICROSOFT DDYDD MAWRTH 22 GORFFENNAF AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd S Maughan – y Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| MJ Williams | G Thomas | G Walter | P Baker |
| R Lynch | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb
Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – y Gwasanaethau Democrataidd |
| Nimi Chandrasena | Cofnodi nodiadau |

Gwahoddedigion

Y Cyng J Spanswick
Y Cyng R Penhale-Thomas
Y Cyng A Williams

Datganiadau o Fuddiannau
Fe wnaeth y Cyng Martin Williams ddatgan buddiant personol gan ei fod yn briod ag un o'r Arweinwyr Grwpiau, y Cyng Amanda Williams.

## 188. Safonau Ymddygiad

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i bwrpas oedd cyflwyno adroddiadau Arweinwyr tri Grŵp gwleidyddol y Cyngor i'r Pwyllgor Safonau, yn amlinellu sut yr oeddent yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o ran safonau ymddygiad uchel.<br><br>Cyflwynodd y tri Arweinydd Grŵp eu hadroddiadau a gofynnwyd y cwestiynau canlynol iddynt gan yr aelodau::<br><br>• Beth allai fod yr un peth y gallai pob Arweinydd Grŵp ei wneud i wella safonau Aelodau yn y dyfodol?<br>Ymatebodd yr Arweinwyr Grwpiau y byddent yn hoffi:<br><br>- Annog a hyrwyddo parch ymhlith aelodau a thuag at bleidiau gwrthwynebol.<br>- Aelodau mewn swyddi uwch i osod esiampl i aelodau eu plaid eu hunain<br>- Galluogi aelodau i wylio lluniau o gyfarfodydd lle nad oedd eu hymddygiad wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig.<br><br>• Aelodau sy'n gweithio mewn pwyllgorau penodol i dderbyn hyfforddiant perthnasol, a bod ymchwiliad i gael ei gynnal i blatfform yr hyfforddiant ar-lein, gan fod rhai aelodau wedi cael anawsterau technegol.<br><br>• Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro wneud sylwadau ar y posibilrwydd o gael data ynghylch cwynion yn erbyn aelodau. Atebodd y Swyddog Monitro fod Arweinwyr y Grwpiau yn cael eu copïo i mewn i dderbyn gohebiaeth o'r cychwyn cyntaf yn y rhan fwyaf o achosion. Dywedodd, mewn sefyllfaoedd lle nad oeddent yn cael eu copïo, i mewn y byddai'n gofyn i'r aelodau am eu caniatâd i gopïo Arweinwyr y Grwpiau i mewn.<br><br>• Holodd aelod am y posibilrwydd o drefnu'r Cyfarfod Safonau i gyd-fynd ag adroddiad yr Ombwdsmon. Atebodd y Swyddog Monitro nad oedd y wybodaeth bob amser ar gael o fewn y terfynau amser; fodd bynnag, nid oedd ganddi wrthwynebiad i drefnu'r cyfarfod Safonau fel y gofynnwyd. |

| | |
|---|---|
| | • Gofynnodd y Cadeirydd i bob Arweinydd Grŵp ofyn i aelodau ei blaid rannu gwybodaeth ynglŷn â chwynion gydag ef/hi.<br><br>• Gofynnodd Arweinydd Grŵp a oedd modd gwahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o gwynion er mwyn codi ymwybyddiaeth yr Aelodau. Dywedodd y swyddog Monitro y byddai hi'n paratoi dull categoreiddio a fyddai o gymorth i'r aelodau ddeall y gwahanol fathau o gwynion.<br><br>• Awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid atgoffa'r aelodau am y cod ymddygiad cyn pob cyfarfod drwy ei gynnwys yn araith agoriadol pob cyfarfod. Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl ymestyn hyn i Gynghorau Cymuned. Dywedodd y swyddog monitro y gallai ysgrifennu at gynghorau cymuned er mwyn iddynt ei gynnwys naill ai fel eitem sefydlog ar eu hagenda neu fel nodyn atgoffa.<br><br>• Cafwyd trafodaeth ynghylch nifer cyfarfodydd Cynghorau Cymuned, cynrychiolaeth aelodau mewn cyfarfodydd o'r fath a'r aelodau priodol i gynrychioli eu Cyngor Cymuned yn y fforwm.<br><br>• Soniodd y Cadeirydd am y posibilrwydd y gallai aelodau'r pwyllgor Safonau arsylwi a chefnogi cyfarfodydd cynghorau cymuned gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai oedd wedi cynhyrchu cwynion a defnyddio'r cyfle hefyd i rannu arfer gorau.<br><br>• Gofynnodd Arweinydd Grŵp a oedd modd rhannu recordiadau o gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned, ond atebodd y Swyddog Monitro gan fod rhwymedigaethau'r cynghorau cymuned yn wahanol i rai y Cyngor, y byddai'n rhaid iddi ystyried y weithdrefn.<br><br>**PENDERFYNWYD**<br><br>Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiadau a oedd ynghlwm fel Atodiadau 1-3 a rhoddodd adborth; cytunwyd y byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud y canlynol:<br><br>• Cael data yn ymwneud â chwynion i'w ddarparu i Arweinwyr y Grwpiau a gofyn hefyd i'r aelodau, y gwnaed y cwynion yn eu herbyn, hysbysu eu Harweinydd Grŵp perthnasol.<br>• Trefnu'r Cyfarfod Safonau i gyd-fynd ag adroddiad yr Ombwdsmon ynghylch cwynion yn erbyn Cynghorwyr.<br>• Paratoi dull categoreiddio a fyddai'n gymorth i aelodau ddeall y gwahanol fathau o gwynion.<br>• Edrych ar gynnwys datganiad ynghylch y Cod Ymddygiad yn araith agoriadol Cyfarfodydd |

| | |
|---|---|
| | Pwyllgorau.<br>• Ysgrifennu at gynghorau cymuned yn gofyn iddynt gynnwys y Cod Ymddygiad naill ai fel eitem sefydlog ar eu hagenda neu fel nodyn atgoffa.<br>• Gwirio'r weithdrefn o ran rhannu recordiadau o Gyfarfodydd Cynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad o fynd i'r afael â chwynion. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22/07/25 |

## 189. Adroddiad Blynyddol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i bwrpas oedd cael cymeradwyaeth y Pwyllgor i gyflwyno ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'r Cyngor ar y 23ain o Orffennaf 2025.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol am 2024/25 i'r diben o adrodd i'r Cyngor ar 23/07/25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22/07/25 |

## 190. Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Monitro, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Pwyllgor bod dau Aelod Annibynnol (cyfetholedig) wedi cael eu penodi i'r Pwyllgor ac yr adroddid am hyn wrth y Cyngor Llawn ar 23 Gorffennaf 2025 er mwyn i'r penodiadau gael eu cymeradwyo.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd eu bod yn ddau ymgeisydd cryf fyddai'n dod â mwy o amrywiaeth i'r panel. Teimlent y byddai hyn yn gadarnhaol ac y byddai'n fuddiol i'r Panel ddod yn ôl i'w gryfder llawn. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn gobeithio darparu cyfleoedd hyfforddi i'r aelodau newydd mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau.<br><br>PENDERFYNWYD: |

| | |
|---|---|
| | Nododd y Pwyllgor benodiadau Janet Evans a Martyn Daley i'r Pwyllgor Safonau a bod hyn i gael ei adrodd wrth y Cyngor Llawn ar 23 Gorffennaf 2025.<br><br>Byddai'r Swyddog Monitro yn trefnu hyfforddiant i'r aelodau newydd i baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22/07/25 |

**191. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 22/07/25 |

Er mwyn gweld rhagor o’r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen yma

Daeth y cyfarfod i ben am 11:00